# Rhagair



**Y Cynghorydd Robert F Curtis**
**Aelod o'r Cabinet ar gyfer yr Amgylchedd a Gwasanaethau Gweladwy**

Dyma Strategaeth Leol gyntaf Bro Morgannwg ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac mae'n gam pwysig tuag at sicrhau bod perygl llifogydd ym Mro Morgannwg yn cael ei drin yn ei gyfanrwydd, gan gysylltu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Cyngor, Cyrff y Llywodraeth a'r Cwmniau Dŵr â gwaith cymunedau a deiliaid tai unigol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae sawl ardal yn y Deyrnas Unedig wedi wynebu llifogydd dinistriol. Mae cymunedau ym Mro Morgannwg, megis Trebefered, Llanilltud Fawr, Llanmaes a Dalgylch Coldbrook yn y Barri hefyd wedi dioddef effeithiau a chanlyniadau difrifol yn sgil llifogydd. Derbynnir yn gyffredinol fod llifogydd fel y rhain yn debygol o ddigwydd yn amlach wrth i effeithiau newid yn yr hinsawdd ddatblygu. Bydd rhagor o lifogydd yn peri mwy o berygl i fywyd, i’r economi ac i’r amgylchedd yn y Fro.

Mae'r Strategaeth yn ystyried sut y gall gwahanol weithgareddau helpu i reoli perygl llifogydd. Mae hyn yn cynnwys cael gwell polisi cynllunio er mwyn sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn gwaethygu'r perygl o lifogydd i gymdogion, a bod y dirwedd o’u hamgylchedd yn cael ei rheoli’n effeithlon er mwyn cyfyngu ar lifogydd yn y ffynhonnell a sicrhau bod ymatebion i argyfyngau'n cael eu targedu i'r mannau hynny lle mae'r perygl llifogydd ar ei fwyaf. Serch hynny, ni all y gweithgareddau a nodir yn y Strategaeth hon ond gyfrannu at reoli perygl llifogydd. Ni fyddai'n realistig, hyd yn oed pe na baem mewn cyfnod o gyni, inni warchod yr holl eiddo a'r holl seilwaith rhag perygl llifogydd. Yn hytrach, mae angen i bawb sy'n ymwneud â hyn, sefydliadau a deiliaid tai fel ei gilydd, fynd ati mewn ffyrdd ymarferol i leihau perygl llifogydd, nid dim ond drwy leihau'r tebygolrwydd o lifogydd ond hefyd eu heffaith, gan sicrhau bod modd i eiddo ymdopi os digwydd llifogydd difrifol.

Cydnabyddir bod gwahanol sefydliadau sy'n ymwneud â rheoli risg heb gydweithio'n ddigon effeithiol bob tro yn y gorffennol er mwyn mynd i'r afael â'r problemau dyrys y mae perygl llifogydd yn aml yn eu creu. Mae'n hanfodol bod sefydliadau'n cydweithio'n well, nid dim ond gyda'i gilydd, ond gyda'r cyhoedd. Dyma pam mae'r strategaeth yn rhestru rolau a chyfrifoldebau'r holl randdeiliaid, gan gynnwys deiliaid tai a grwpiau yn y gymuned, er mwyn sicrhau mwy o eglurdeb a dealltwriaeth ynghylch pa bryd y dylai gwahanol randdeiliaid gael eu cynnwys.

Mae'r Strategaeth hon yn canolbwyntio ar 'berygl llifogydd lleol'. Diffinnir y rhain fel llifogydd sy'n cael eu hachosi gan ddŵr ffo ar y wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin (nentydd, ffosydd ac ati). Y math hwn o lifogydd a wnaeth achosi’r rhan fwyaf o'r difrod yn ystod llifogydd lleol 1998, 2000 a 2007 a dylid rhoi sylw yr un mor ddifrifol i’r rhain ag a roddir i lifogydd o'r prif afonydd neu ar yr arfordir. Serch hynny, nid ffynhonnell y llifogydd sy’n bwysig i’r sawl sy'n dioddef ond yr effaith y maent yn ei chael, ac rydym yn awyddus i sicrhau bod llifogydd o bob math yn cael eu rheoli gyda'i gilydd a'n bod yn mynd i'r afael â hwy ar sail lefel y risg yn hytrach nag ar sail yr hyn sydd wedi'u hachosi neu drwy ymateb i’r uchaf ei gloch Mae'r Strategaeth felly'n dweud sut y byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol eraill i gyfrannu at reoli perygl llifogydd o bob ffynhonnell gan sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi'n cael eu gwneud ar sail lefelau'r perygl.

Mae asesu lefelau perygl llifogydd yn dasg anodd. Wrth inni weld rhagor o ddatblygu ac wrth i batrymau’r tywydd fynd yn fwyfwy ansicr, mae'n bosibl y bydd tai sydd erioed wedi dioddef llifogydd o’r blaen yn wynebu perygl. Rydym yn sylweddoli y gall deiliaid tai fod yn poeni am ddefnyddio meddalwedd modelu i bennu pa ardaloedd sy'n wynebu perygl llifogydd neu sy'n debygol o’i wynebu yn y dyfodol, ond mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod adnoddau prin yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i leihau effaith llifogydd a'r tebygolrwydd y bydd eiddo'n dioddef yn eu sgil, ac i dargedu adnoddau i'r ardaloedd sy'n wynebu'r perygl mwyaf.

Y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd yw ein datganiad o fwriad ar gyfer ymdrin â pherygl llifogydd ym Mro Morgannwg a sicrhau bod ein cymunedau, ein seilwaith a'r amgylchedd ehangach yn gallu gwrthsefyll effeithiau llifogydd a newid yn yr hinsawdd yn well. Rwy'n gobeithio y bydd yn help ichi ddeall cyfrifoldebau pawb yn well, sut y gallwch gael gwybod faint o berygl rydych chi’n ei wynebu yn sgil llifogydd, a beth y gallwn ei wneud i'ch helpu i gadw’n fwy diogel.

# RHAGARWEINIAD

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn gosod cyfrifoldeb ar Awdurdodau Lleol sy'n Brif Awdurdodau Llifogydd Lleol, i ddatblygu, cynnal, rhoi ar waith a monitro strategaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol ('Strategaeth Leol'). Y Strategaeth Leol hon yw'r fframwaith sy'n rhoi mwy o lais i gymunedau lleol wrth i benderfyniadau gael eu gwneud ynghylch rheoli perygl lleol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Y Fro) wedi cynhyrchu strategaeth sy'n rhestru'r amcanion a'r camau sydd wedi'u datblygu i ddangos, ar lefel uchel, sut mae'r Awdurdod yn bwriadu rheoli perygl llifogydd yn ystod oes y strategaeth benodol hon ac mae'n anelu at fabwysiadu ymagwedd gyfannol at reoli perygl llifogydd.

O dan y ddeddfwriaeth hon, mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, sef y Prif Awdurdod Llifogydd Lleol, ddyletswydd i gynhyrchu'r strategaeth mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill sy’n rheoli’r perygl.

Mae cynnwys y Strategaeth Leol wedi'i ddatblygu'n unol â gweledigaeth Strategaeth Gymunedol Cyngor Bro Morgannwg a'r canlyniadau sy'n flaenoriaeth iddo. Mae'r Strategaeth Leol hefyd wedi'i chysoni â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheol Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru. Mae'n darparu gwybodaeth leol bwysig i hwyluso cyd-ddealltwriaeth ynghylch perygl llifogydd lleol, pwy sy'n ymwneud â'r gwaith, beth yw eu cyfrifoldebau, yr amcanion a'r camau ymarferol i wireddu'r amcanion dros gyfnod. Pwrpas y Strategaeth yw asesu perygl llifogydd lleol, annog gwaith partneriaeth, dylanwadu ar bolisi cynllunio lleol, cyfeirio'r adnoddau sydd ar gael at y rheini sy'n wynebu'r perygl mwyaf a galluogi Cyngor Bro Morgannwg i reoli perygl llifogydd mewn ffordd deg ac agored yn y gymuned.

# 1 BETH YW LLIFOGYDD?

Mae Deddf Rheoli Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn datganoli rheoli perygl llifogydd lleol i'r Fro. Diffinnir Perygl Llifogydd Lleol yn llifogydd sy’n digwydd yn sgil dŵr wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin, megis afonydd bach, nentydd a ffosydd. Rhoddir disgrifiad llawn o ffynonellau’r llifogydd hyn yn y tabl isod:

**Tabl 1.0 - Ffynhonnell y Llifogydd a’r Mecanwaith**

| **Ffynhonnell y Llifogydd a'r Mecanwaith** | **Cyfrifoldeb** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyngor Bro Morgannwg** | **Cyfoeth Naturiol Cymru** | **Dŵr Cymru** | **Priffyrdd Bro Morgannwg** | **Asiantaeth Priffyrdd De Cymru** |
| ***Dŵr Wyneb*** - Dŵr ffo o ganlyniad i law dwys pan fydd dŵr yn pyllu neu'n llifo dros wyneb y tir cyn iddo fynd i'r rhwydwaith draenio dan ddaear neu gwrs dŵr | ● | | | | |
| ***Cwrs Dŵr Cyffredin*** - Llifogydd sy'n digwydd yn sgil gorlifo na all cwrs dŵr cyffredin ymdopi ag ef sy'n arwain at ôl-lif (dŵr yn llifo'n ôl allan o afonydd a nentydd. | ● | | | | |
| ***Dŵr daear***- Mae'n digwydd pan fydd lefel y dŵr yn yr acwiffer dŵr daear yn codi i'r wyneb | ● | | | | |
| Prif Afonydd - Mae'n digwydd pan fydd 'Prif Afon' ddynodedig yn methu ag ymdopi â chyfaint y dŵr sy'n draenio iddi o'r tir o'i chwmpas ac yn gorlifo i'r ardal o'i hamgylch. | | ● | | | |
| Arfordirol - Mae'n digwydd pan fydd llanw uchel a / neu storm (ymchwydd llanw) yn codi'n uwch na lefel tir yr arfordir neu amddiffynfeydd rhag llifogydd y glannau. Gall llifogydd mewndirol hefyd gael eu hachosi wrth i afonydd neu aberoedd 'gloi'r llanw' | | ● | | | |

| Ffynhonnell y Llifogydd a'r Mecanwaith | Cyfrifoldeb | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyngor Bro Morgannwg | Cyfoeth Naturiol Cymru | Dŵr Cymru | Priffyrdd Bro Morgannwg | Asiantaeth Priffyrdd De Cymru |
| Cronfeydd - Mae'n digwydd pan fydd cronfa ddŵr / arglawdd neu ddull o reoli camlas yn methu ac yn rhyddhau cyfaint mawr o ddŵr sydd wedi'i gronni i'r ardal yn is i lawr. | | ● | | | |
| Carthffos - Llifogydd sy'n digwydd pan fydd gormod o ddŵr yn y system draenio dan ddaear, gan arwain at lifogydd y tu mewn i adeiladau a'r tu allan iddynt. | | | ● | | |
| Pibellau neu brifion dŵr yn byrstio - Mae'n digwydd pan fydd y cyflenwad dŵr neu'r seilwaith draenio'n methu | | | ● | | |
| Gorlifo'r Priffyrdd- Cyfuniad o lifogydd dŵr carthffosydd a dŵr wyneb ar briffordd | | | | ● | |
| Llifogydd ar Briffyrdd (M4 A4232) - Cyfuniad o ddŵr carthffosydd a dŵr wyneb yn achosi llifogydd ar brif briffordd | | | | | ● |

Mae'r Fro yn awr yn arwain ar reoli llifogydd o ffynonellau lleol gyda help awdurdodau eraill sy'n rheoli peryglon. Mae'r strategaeth yn ymdrin â rheoli perygl llifogydd lleol.

Cwblhawyd y Strategaeth a'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2014.

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol o hyd am reoli llifogydd o brif afonydd a moroedd. I gael gwybod rhagor am lifogydd o brif afonydd a moroedd, ewch i www,cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## 2 BETH YW STRATEGAETH LEOL AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD?

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn gosod cyfrifoldeb ar Awdurdodau Lleol sy'n Brif Awdurdodau Llifogydd Lleol, i ddatblygu, cynnal, rhoi ar waith a monitro strategaeth leol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ('Strategaeth Leol').

Y Strategaeth Leol hon yw'r fframwaith sy'n rhoi mwy o lais i gymunedau wrth i benderfyniadau gael eu gwneud am reoli perygl lleol. Ar y cyd â'r Strategaeth Genedlaethol, mae'r Strategaethau Lleol yn annog dulliau mwy effeithiol o reoli perygl drwy alluogi pobl, cymunedau, y sector busnes a'r sector cyhoeddus i gydweithio. Bydd yn gwneud hyn drwy gynnig sylfaen dystiolaeth ar gyfer y penderfyniadau a'r camau sy'n ofynnol er mwyn rheoli perygl llifogydd.

## 3 STRWYTHUR Y STRATEGAETH LEOL

Mae'r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd yn cynnwys sawl dogfen sy'n ategu prif ddogfen y strategaeth. Mae'r tabl isod yn crynhoi strwythur y Strategaeth Leol a'r prif gwestiynau a atebir ym mhob adran.

**Tabl1-2: Strwythur y Strategaeth Leol**

| Rhif yr Adran | Teitl | Y Cwestiynau Pwysig |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Rhagarweiniad | Beth yw Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd?<br>Ymhle y galla'i ddod o hyd i wybodaeth benodol yn y ddogfen hon?<br>Beth yw'r sbardunau deddfwriaethol ar gyfer y Strategaeth hon? |
| 2 | Perygl Llifogydd Lleol | Beth yw 'perygl llifogydd lleol'?<br>Pa lifogydd sydd wedi digwydd yn y gorffennol?<br>Pa lifogydd a allai ddigwydd yn y dyfodol?<br>Sut y bydd pob ffynhonnell llifogydd yn rhyngweithio â'i gilydd?<br>Ymhle mae'r ardaloedd sy'n wynebu'r perygl mwyaf?<br>Pwy sy'n wynebu'r perygl mwyaf?<br>Sut mae ffynonellau llifogydd sydd ddim yn rhai lleol yn cael eu rheoli? |
| 3 | Rolau a Chyfrifoldebau | Pwy sy'n gyfrifol am reoli perygl llifogydd?<br>Beth yw cyfrifoldebau pob un o'r sefydliadau hyn?<br>Pwy y dylwn gysylltu â hwy am lifogydd? |
| 4 | Amcanion a Chamau | Beth yw'r Amcanion Cenedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd?<br>Beth yw'r Amcanion Lleol ar gyfer rheoli perygl llifogydd?<br>Pa gamau a ddilynir i wireddu'r Amcanion Lleol?<br>Pwy fydd yn gyfrifol am roi'r camau ar waith?<br>Sut y bydd y camau hyn yn cael eu hariannu? |
| 5 | Ariannu a Gweithredu | Pwy fydd yn ariannu'r camau?<br>Sut y bydd y camau'n cael eu rhoi ar waith? |
| 6 | Asesiad Amgylcheddol | Sut y bydd y Strategaeth hon yn effeithio ar yr amgylchedd?<br>Sut y bydd yr effeithiau ar yr amgylchedd yn cael eu rheoli?<br>Beth fydd y manteision i'r amgylchedd? |
| 7 | Adolygu a Diweddaru | Pa mor aml y bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu?<br>Pwy sy'n gyfrifol am ddiweddaru'r Strategaeth?<br>Sut y gallaf fi gyfrannu at y Strategaeth? |
| 8 | Cyfeiriadau | Manylion y dogfennau cyfeirio a ddefnyddiwyd i greu'r Strategaeth |
| Atodiadau | Amrywiol | Dogfennau ategol ar gyfer y Strategaeth Leol gan gynnwys rhestr o dermau a ffurflenni ymateb i'r ymgynghori |

## 4 CYD-DESTUN DEDDFWRIAETHOL

Mae dwy brif ddeddfwriaeth sydd wedi dylanwadu ar reoli perygl llifogydd.

### *DEDDF RHEOLI LLIFOGYDD A DŴR (2010)*

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010) yn gosod cyfrifoldeb newydd ar Awdurdodau Lleol i reoli ac arwain ym maes llifogydd lleol. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Awdurdodau Lleol yn cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau newydd gyda golwg ar reoli perygl llifogydd.

Y Strategaeth Leol hon yw un o ofynion newydd y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r angen i reoli llifogydd mewn ffordd gyfannol a chynaliadwy. Mae hyn wedi tyfu o'r prif egwyddorion yn Making Space for Water (Defra, 2005) ac fe'i cryfhawyd eto yn sgil llifogydd haf 2007 ac Adolygiad Pitt (Swyddfa'r Cabinet, 2008). Mae'n rhoi nifer o brif argymhellion Adolygiad Syr Michael Pitt o lifogydd haf 2007 ar waith.

## *RHEOLIADAU PERYGL LLIFOGYDD (2009)*

Rheoliadau Perygl Lliiogydd (2009) yw'r rheoliadau sy'n trosi Cyfarwyddeb Llifogydd yr Undeb Ewropeaidd i gyfraith Cymru a Lloegr. Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol cynhyrchu tri phrif fath o asesiad / cynllun:

a) **Asesiadau Cychwynnol o Berygl Llifogydd** i'w cwblhau gan bob Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ac Asiantaeth yr Amgylchedd erbyn 22 Rhagfyr 2011. Nodwyd hefyd Ardaloedd Perygl Llifogydd a allai fod mewn perygl sylweddol. Datblygir mapiau a chynlluniau rheoli ar sail yr ardaloedd hyn sy'n wynebu perygl llifogydd.

b) **Mapiau sy'n Dangos Graddfa Perygl Llifogydd a Mapiau Risg Llifogydd**. Mae gofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol baratoi Mapiau Graddfa Perygl a Risg ar gyfer pob ffynhonnell llifogydd erbyn 22 Rhagfyr 2013.

c) **Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd** Mae gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol gyhoeddi Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer 'Ardaloedd sy'n Wynebu Perygl Llifogydd' erbyn 22 Rhagfyr 2015.

Dylid nodi mai dim ond (a) uchod sy'n orfodol i bob Awdurdod Arweiniol. Mae'r Fro wedi cynhyrchu Asesiad Cychwynnol ac nid yw o fewn Ardal Perygl Llifogydd. Felly, nid oes ond gofyn i'r Cyngor gwblhau (a) ac wedyn adolygu'r ddogfen bob chwe blynedd.

Roedd y Fro yn y lle cyntaf wedi'i chynnwys yn Ardal Perygl Llifogydd Ddangosol Caerdydd yn ardaloedd y Wenfô a Chroes Cwrlwys. Diwygiwyd ffin Ardal Perygl Llifogydd Ddangosol Caerdydd yn ystod proses yr Asesiad Cychwynnol i gydredeg â llinell ffin yr Awdurdod Lleol ac nid yw'n ymestyn bellach i Fro Morgannwg.

Mae'n bwysig nodi mai dogfen lefel uchel yw'r strategaeth ac nad yw'n cyfeirio at unrhyw brosiectau penodol nac yn manylu yn eu cylch. Mae'n cyfeirio at gamau strategol ynghyd ag egwyddorion a fydd yn help wrth wneud penderfyniadau am gynlluniau rheoli perygl llifogydd yn y dyfodol.

# 5 Perygl Llifogydd Lleol

Mae sawl ffynhonnell bosibl a allai arwain at lifogydd yn Y Fro. Mae'r rhain yn rhyngweithio â'i gilydd a gallant greu mecanweithiau llifogydd cymhleth mewn rhai ardaloedd. Gall hyn ei gwneud yn anodd (neu'n amhosib) gwybod pwy sy'n llwyr gyfrifol am lifogydd mewn ardal benodol ac fe gesglir yn aml bod sawl ffynhonnell yn gyfrifol. Er bod y Strategaeth Leol yn canolbwyntio ar liniaru canlyniadau ffynonellau 'lleol', mae hefyd yn hwyluso gwaith partneriaeth â sefydliadau eraill er mwyn reoli'r perygl lle bydd llifogydd wedi digwydd yn y gorffennol o sawl ffynhonnell neu lle y rhagwelir y byddant yn digwydd dyn y dyfodol.

Prif Afon yn gorlifo sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r holl lifogydd a gofnodwyd ym Mro Morgannwg. Mae llifogydd dŵr wyneb yn anodd eu mesur oehrwydd bod effaith Prif Afon yn gorlifo'n eu celu neu oherwydd na fydd pobl yn rhoi gwybod amdanynt. Serch hynny, ar sail tystiolaeth hanesiol a chofnodi digwyddiadau diweddar yn well, credir bod dŵr wyneb yn gorlifo'n eithaf aml ym Mro Morgannwg.

Cafwyd adroddiadau am ddŵr daear yn gorlifo ym Mhentref Eweni, Saint y Brid, East Monkton, Y Rhŵs a'r Barri.

Mae llifogydd lleol wedi digwydd a byddant yn dal i ddigwydd mewn sawl ardal yn y Fro pan fydd y tywydd yn ddifrifol ac mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o olygu y bydd y rhain yn digwydd yn amlach ac y byddant yn fwy difrifol. Nod y Strategaeth Leol hon fydd lleihau'r peryglon lle bo modd a sicrhau bod cynlluniau ar waith i ddelio â digwyddiadau difrifol eithafol.

Paratowyd Asesiad Cychwynnol o Berygl Llifogydd yn 2011 gan Y Fro i gyflawni ei ddyletswyddau i reoli perygl llifogydd lleol o dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009. Fel rhan o'r Asesiad Cychwynnol, cynhaliwyd dadansoddiad i weld ym mha ardaloedd allweddol ym Mro Morgannwg y disgwylir i berygl llifogydd posibl yn sgîl dŵr wyneb fod ar ei fwyaf. Cwblhawyd y dadansoddiad ar sail cyngor cyfan a nodwyd bod Dinas Powys, Llanilltud Fawr a'r Bont-faen yn wynebu perygl sylweddol yn sgil llifogydd dŵr wyneb yn y dyfodol.

# 6 Amcanion a Chamau

Un o'r gofynion statudol gyda golwg ar Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd yw ei bod yn gyson â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordirol. Mae pedair amcan gyffredinol i'r Strategaeth Genedlaethol ac un-ar-ddeg o is-amcanion - crynhoir y rhain yn y tabl isod

| Nifer | Amcanion | Is-Amcanion |
|---|---|---|
| 1 | Lleihau'r canlyniadau i unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd yn sgil llifogydd ac erydu arfordirol. | 1 Cynnig Arweiniad a Chyfeiriad Strategol ar Lefel Genedlaethol |
| | | 2. Cynnig Arweiniad a Chyfeiriad Strategol ar Lefel leol |
| | | 3. Datblygu polisïau ar gyfer rheoli defnydd tir yn effeithiol a gwell gweithdrefnau rheoli datblygu lle bydd hynny'n briodol |
| | | 4. Sefydlu amserlenni cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer asedau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol |
| 2 | Cryfhau ymwybyddiaeth pobl ac ymgysylltu â hwy wrth ymateb i berygl llifogydd ac erydu arfordirol | 5. Sicrhau erbyn 2026 fod pawb sy'n byw mewn ardal lle mae perygl llifogydd yn deall y perygl y maent yn ei wynebu, canlyniadau'r perygl hwn a sut i fyw gyda hynny |
| | | 6. Cryfhau cydnerthedd eiddo ac ar lefel y gymuned |
| 3 | Ymateb yn effeithiol ac yn barhaus i lifogydd ac erydu arfordirol pan fyddant yn digwydd | 7. Sicrhau bod Cynlluniau Argyfwng yn cael eu paratoi a'u profi |
| | | 8. Ymateb i ddigwyddiadau'n ddi-oed ac mewn ffordd briodol |
| | | 9. Hwyluso adferiad ar ôl llifogydd cyn gynted â phosibl |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | Blaenoriaethu buddsoddi yn y cymunedau sy'n wynebu’r perygl mwyaf | 10. Datblygu Rhaglen Fuddsoddi Genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol |
| | | 11. Defnyddio rhagor ar ffynonellau arian amgen i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol |

Prif amcan y Strategaeth Genedlaethol yw lliniaru canlyniadau llifogydd i unigolion, cymunedau a'r amgylchedd. Felly, mae'r amcanion lleol wedi'u targedu i wella arferion rheoli a lliniaru canlyniadau perygl llifogydd. Mae'r strategaeth yn nodi'r camau y bydd y Fro yn eu mabwysiadu i gyflawni'r amcanion lleol, y camau a'r gweithgareddau a gyflawnir i reoli'r perygl a gwireddu'r amcanion sydd wedi'u datgan.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r amcanion lleol y bydd y Fro yn eu defnyddio i’w helpu i wireddu'r amcan cenedlaethol uchod ynghyd â sylwadau sy'n dangos sut mae'r rhain yn gyson â dyletswyddau / cyfrifoldebau / amcanion / gweithgareddau cyfredol eraill lle bydd y rheini'n berthnasol.

**Tabl 4-2: Lleihau'r Canlyniadau - Amcanion Lleol**

| Nifer | Amcanion Lleol | Camau | Amserlen Gweithredu | | | Partneriaid Allweddol | Arian Posibl | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Byr | Canolig | Hir | | | |
| 1 | Cynnig arweiniad a chyfeiriad strategol ar lefel leol | Arwain a chynnal 'Partneriaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd' i drafod materion sy'n berthnasol i berygl llifogydd lleol a rhannu gwybodaeth. | X | X | X | Y Fro / Fforwm Llifiogydd | Refeniw (Cyfrifoldeb dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr) | Bydd Fforwm Llifogydd Bro Morgannwg ar hyn o bryd yn cyfarfod bob rhyw chwarter.<br>Ystyried a ddylid ehangu cylch gwaith y fforwm llifogydd i ffurfio'r grŵp partneriaeth<br>Dyletswydd Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr |
| | | Sefydlu Cysylltiadau gweithio cydweithredol gyda swyddogion Awdurdodau Arweiniol cyffiniol i reoli peryglon llifogydd trawsffiniol. | X | X | X | Y Fro / Fforwm Llifiogydd | Refeniw (Cyfrifoldeb dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr) | Cyfeirier at Adran 2 (Perygl Llifogydd Lleol) i nodi'r prif feysydd rhyngweithio<br>Dyletswydd Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr |
| | | Darparu cyfarwyddyd clir ynghylch pwy sy'n gyfrifol am reoli pob ffynhonnell perygl llifogydd a helpu rhanddeiliaid i gyflawni eu cyfrifoldebau | X | X | X | Y Fro | Refeniw (Cyfrifoldeb dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr) | Awgrymu y dylid adolygu hyn bob blwyddyn.<br>Dyletswydd Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr |
| | | Creu Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd a'i rhoi ar waith | x | X | X | Y Fro | Refeniw (Cyfrifoldeb dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr) | Y ddogfen hon. Awgrymu adolygiadau interim ar batrwm cylch blwyddyn ac adolygiad llawn bob chwe blynedd yn unol â'r adolygiadau o'r Strategaeth genedlaethol.<br>Dyletswydd Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr |

| Nifer | Amcanion Lleol | Camau | Amserlen Gweithredu Byr | Amserlen Gweithredu Canolig | Amserlen Gweithredu Hir | Partneriaid Allweddol | Arian Posibl | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| 2 | Datblygu polisïau rheoli adeiladu lleol i sicrhau bod y datblygiad yn cydymffurfio â chamau i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol sy'n gynaliadwy. | Monitro effaith polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol drwy Adroddiadau Monitro Blynyddol ac adolygu polisïau lle bydd gofyn ar sail y wybodaeth orau sydd ar gael am berygl llifogydd lleol. | X | | | Y Fro | Refeniw (Cyfrifoldeb dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr) | Cyfeirier at Feini Prawf Monitro'r CDLl - Bydd Dangosyddion Craidd, sy'n ofynnol o dan bolisïau cenedlaethol, yn mesur faint o ddatblygu a ganiateir mewn parthau llifogydd. Yn ogystal â hynny, mae'n bosibl hefyd y bydd Dangosyddion Lleol, sy'n mesur nifer y datblygiadau a ganiateir bob blwyddyn mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd, yn cael eu cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol. |
| | | Rhoi canllawiau clir am y gofynion lleol o ran rheoli perygl llifogydd i ddatblygwyr sy'n gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid perthnasol eraill i ddatblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o berygl llifogydd o bob ffynhonnell. | X | | | Y Fro | Refeniw | Cysylltu â threfniadau meithrin gallu swyddogion cynghorau'n gyffredinol gyda golwg ar reoli perygl llifogydd. |
| | | Sefydlu Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy i adolygu cynigion datblygu, mabwysiadu Systemau o'r fath gan ddatblygwyr a sicrhau bod arferion cynaliadwy'n cael eu rhoi ar waith i reoli llifogydd. | X | | | Y Fro | Refeniw (Cyfrifoldeb dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr) | Dyletswydd Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr |
| | | Datblygu proses gynllunio a'i rhoi ar waith ar gyfer adnabod a 'dynodi' strwythurau neu nodweddion sylweddol sy'n cael 'dylanwad sylweddol yn lleol ar berygl llifogydd' | X | | | Y Fro | Refeniw (Cyfrifoldeb dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr) | Dyletswydd Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr |

| Nifer | Amcanion Lleol | Camau | Amserlen Gweithredu | | | Partneriaid Allweddol | Ariann Posibl | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Byr | Canolig | Hir | | | |
| | | Sefydlu cysylltiadau clir rhwng perygl llifogydd lleol a safleoedd amgylcheddol arwyddocaol i ddeallyr effeithiau a'r cyfleoedd a gyflwynir yn sgil eu rhyngweithio | X | | | Y Fro / Cyfoeth Naturiol Cymru | Refeniw | Bydd asesiadau'r Cyfrif Refeniw Tai, yr Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn dangos y cysylltiadau hyn yn glir. |
| | | Llunio fersiwn derfynol a gweithredu polisi clir ar gwlfera cyrsiau dŵr sy'n gyson â pholisi cenedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru ac sy'n hyrwyddo effeithiau amgylcheddol cadarnhaol. | X | | | Y Fro / Cyfoeth Naturiol Cymru | Refeniw | Cyfeirier at y Polisi Cwlfera Drafft<br>Yn gyson â'r Cynllun Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd |
| | | Sicrhau bod y polisi rheoli risg llifogydd lleol a grewyd gan y Cyngor yn gyson â pholisïau eraill y Cyngor sy'n bodoli eisoes ac nad yw'n gwrthdaro â pholisi awdurdodau Rheoli Risg lleol eraill. | X | X | X | Y Fro | Refeniw | Cydlynu drwy gyfarfodydd a gwaith cydweithredol parhaus y Fforwm Llifogydd |
| 3 | Sefydlu a chynnal 'Cofrestr Asedau' fel y'i diffiniwyd gan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr | Creu a chynnal Cofrestr Asedau gan ddefnyddio platfform meddalwedd addas. | X | X | X | Y Fro | Refeniw (Cyfrifoldeb dan y Ddeddf | Dyletswydd Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr |
| | | Sefydlu diffiniad lleol o 'ddylanwad sylweddol lleol ar berygl llifogydd ' | X | | | Y Fro | Refeniw | |
| | | Poblogi'r Gofrestru Asedau â strwythurau a nodweddion sy'n cael 'dylanwad sylweddol ar berygl [illegible] | X | | | Y Fro | Refeniw (Cyfrifoldeb dan y Ddeddf | Dyletswydd Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr |
| | | Adolygu a diweddaru'r Gofrestr Asedau'n rheolaidd | | X | X | Y Fro | Refeniw (Cyfrifoldeb dan y Ddeddf | Dyletswydd Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr |

| Nifer | Amcanion Lleol | Camau | Amserlen Gweithredu Byr | Canolig | Hir | Partneriaid Allweddol | Ariann Posibl | Sylw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Sefydlu a gweithredu amserlenni cynnal a chadw ar gyfer asedau risg uchel ar y gofrestr sy'n gyfrifoldeb i'r Cyngor. Bydd y camau hyn yn diogelu cadwraeth naturiol ac yn amddiffyn yr amgylchedd sy'n eu derbyn. | X | | | Y Fro | Refeniw (Cyfrifoldeb dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr) | Dyletswydd Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr |
| | | Annog cynnal a chadw asedau trydydd parti i ddiogelu safleoedd dynodedig cenedlaethol a rhyngwladol rhag datblygu amhriodol | X | X | X | Y Fro / Fforwm Llifiogydd | Refeniw / Cymuned / Preifat | |
| | | Annog cynnal a chadw asedau ym mherchnogaoeth breifat a sicrhau cyn lleied o gyfyngiadau diangen mewn cyrsiau dŵr | X | X | X | Y Fro / Cymunedau | Refeniw / Cymuned / Preifat | |
| 4 | Ceisio lleihau perygl llifogydd a chanlyniadau mewn ardaloedd risg uchel | Cynnal astudiaethau manwl i nodi achosion a chanlyniadau llifogydd yn yr ardaloedd hyn, yn awr ac yn y dyfodol | X | X | X | Y Fro / Cyfoeth Naturiol Cymru / Dŵr Cymru / | Refeniw / Ardoll Leol /Cymorth Grant Amddiffyn rhag Llifogydd | Cyfeirio at Ardaloedd Blaenoriaethu yn Adran 2 (Risg Llifogydd Lleol) |
| | | Cynnal astudiaethau dichonolrwydd i archwilio'r opsiynau ar gyfer lleihau perygl llifogydd mewn ardaloedd risg uchel sydd wedi'u cadarnhau gan astudiaethau manwl | X | X | X | Y Fro / Cyfoeth Naturiol Cymru / Dŵr Cymru / | Refeniw / Ardoll Leol /Cymorth Grant Amddiffyn rhag Llifogydd | Yn gyson â chamau gweithredu'r Cynllun Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd |
| | | Hyrwyddo dadgwlfera, yn enwedig wrth i dir ddod ar gael i'w ailddatblygu drwy weithredu'r polisi cwlfera a pholisïau perthnasol y Cynllun Datblygu Unedig / Cynllun Datblygu Lleol - bydd y polisïau hyn yn sicrhau bod buddiannau bioamrywiaeth yn cael eu gwarchod yn unol â rheoliadau a chanllawiau cenedlaethol. | X | X | X | Y Fro / Cyfoeth Naturiol Cymru / Dŵr Cymru | Refeniw / Ardoll Leol /Cymorth Grant Amddiffyn rhag Llifogydd | Yn gyson â chamau gweithredu'r Cynllun Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd |

## 7 Ariannu

Mae'n bwysig gwybod pa fecanweithiau ariannu sydd ar gael i'r Fro a'i bartneriaid i dalu am y camau a gynigir. Mae'n debygol y bydd angen ceisio arian o amrywiaeth o ffynonellau er mwyn gwireddu prosiectau oherwydd bydd yr arian a fydd ar gael gan y llywodraeth ganol bob blwyddyn yn brin ac mae'n bosibl na fydd ond yn cyfrannu at gostau cynlluniau sydd eisoes yn yr arfaeth. Efallai y bydd gofyn cael arian lleol ychwanegol i hwyluso prosiectau wrth symud ymlaen.

## 8 Adolygu, Diweddaru a Monitro

Dylid adolygu'r Strategaeth Leol a'i diweddaru bob chwe blynedd o leiaf. Mae'n rhesymegol cysoni'r cylch adolygu â gofynion Rheoliadau Risg Llifogydd (2009) ac adolygu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheol Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol cwblhau Asesiad Cychwynnol o Berygl Llifogydd arall yn 2017 ac yn yr un modd, mae'r adolygiad o'r Strategaeth Genedlaethol wedi'i raglennu hefyd ar gyfer 2017. Bydd y broses adolygu'n tynnu sylw at unrhyw wybodaeth newydd am risg llifogydd a gellir defnyddio hyn wedyn i ddiweddaru'r Strategaeth Leol ddiwedd 2017. Hefyd, efallai y bydd amgylchiadau'n codi a ddylai sbarduno adolygiad a/neu ddiweddariad o'r Strategaeth yn y cyfamser

Y Fro, sef y Prif Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol sy'n gyfrifol am fonitro rhoi'r Strateageth Leol hon ar waith. Mae hyn yn cynnwys monitro'i weithgareddau ei hun a rhai Awdurdodau Rheoli Risg eraill.

## Rhagor o Wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd, neu faterion eraill sy'n berthnasol i Reoli Perygl Llifogydd , ewch i www.valeofglamorgan.gov.uk/ flood neu cysylltwch â'r Tîm Rheoli Perygl Llifogydd yn fcerm@valeofglamorgan.gov.uk